# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON 12/01/2004

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2004-0001 Ariannu Teg ar gyfer Ehangu Mynediad / Fair Funding for Further Access

**Codwyd gan / Raised By:** Jeff Cuthbert

**Tanysgrifwyr / Subscribers:** 0

*Ariannu Teg ar gyfer Ehangu Mynediad*

*Mae'r Cynulliad hwn yn llongyfarch Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, yn enwedig, Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar ddatgan eu hymrwymiad i'r Agenda Ehangu Mynediad i Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru.*

*Mae'r Cynulliad hwn yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gadarnhau'r ymrwymiad hwn drwy ystyried estyn cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad, a rhoi sylw penodol i'r anawsterau ariannol sy'n wynebu myfyrwyr Addysg Bellach 16 ac 17 oed nad ydynt ar hyn o bryd yn cael Grant Dysgu'r Cynulliad.*

*Fair Funding for Further Access*

*This Assembly congratulates the Welsh Assembly Government and Education and Lifelong Learning Minister Jane Davidson in particular on their stated commitment to the Widening Access Agenda in Welsh Further and Higher Education.*

*This Assembly calls on the Welsh Assembly Government to reaffirm this commitment by considering the extension of the Assembly Learning Grant scheme, taking particular note of the financial difficulties faced by 16- and 17-year old FE students who do not presently receive the ALG.*